

DRAFFT ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB – CYFUNDREFN RHEOLEIDIO SEFYDLIADAU RHYW

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'r adroddiad hwn wedi ystyried yr effaith cydraddoldeb o'r cynnig fel a ganlyn:

Hil:

Dim effaith wedi ei adnabod

Iaith Gymraeg:

Dim effaith wedi ei adnabod

Anabledd:

Dim effaith wedi ei adnabod

Rhyw:

Effaith bositif wedi ei adnabod. Yn gyffredinol, merched fyddai'r mwyafrif o weithwyr perfformio mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o gael eu dinoethi iddyn nhw yn y swyddi hyn.

Oedran:

Effaith bositif wedi ei adnabod. Yn gyffredinol, oedolion ifainc fyddai'n fwy tebygol o weithio fel perfformwyr mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o gael eu dinoethi iddyn nhw yn y swyddi hyn. Yn ogystal, bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl ysgolion), gan helpu gwarchod plant rhag niwed.

Cyfeiriadedd rhywiol:

Dim effaith wedi ei adnabod.

Crefydd neu gred:

Effaith bositif wedi ei adnabod. Bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal agor sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl addoldai), gan helpu lleihau ardrawiad andwyol ar ymarfer crefyddol unigolion.

Ailbennu rhywedd:

Dim effaith wedi ei adnabod.

Beichiogrwydd a mamolaeth:

Dim effaith wedi ei adnabod.

Priodas a phartneriaeth sifil:

Dim effaith wedi ei adnabod.

Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoleiddio ac yn gorfod gweithredu mewn ffordd gyfreithlon.

Ar y sail nad oes effaith negyddol wedi ei adnabod, argymhellir bwrw ymlaen â'r cynnig. Fodd bynnag, bydd yr asesiad cydraddoldeb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn ymgynghoriad a chyn i'r mater gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor hwn am yr eildro.

Llesiant:

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn hefyd wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r 5 ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor – Unwaith mae penderfyniad i fabwysiadu, bydd cyfundrefn barhaol mewn lle fydd yn galluogi trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw ledled y sir. Yn y tymor hir bydd hyn yn cyfrannu at gynllunio cyfrifol o'r fath sefydliadau, a thrwy hynny cyfrannu at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal – Bydd mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gadw rheolaeth ar sefydliadau o'r natur yma, gan helpu atal unrhyw niwed cymdeithasol yn deillio ohonynt neu weithgareddau fyddai'n galluogi caethwasiaeth fodern.

Integreiddio – Mae'r broses ymgynghori yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, cyngorau cymuned a thref, trigolion y sir yn gyffredinol, y diwydiant sefydliadau rhyw). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu o ran taclo caethwasiaeth fodern ac at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio – Byddai unrhyw benderfyniad mabwysiadu o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r uchod.

Cynnwys – Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y mater.

Bydd yr asesiad llesiant hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn ymgynghoriad a chyn i'r mater gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor hwn am yr eildro.